| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 14/08/20 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 18/08/20 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cyllid Corfforaethol |
| **Maes Gwaith:** | Cyllid y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Manylion cyswllt:** | 01443 864618<br>jonesmj@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Cynllun Taliadau Arbennig y Gweithlu Gofal Cymdeithasol |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) yn prosesu eich data personol o ran Cynllun Taliadau y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, ac yntau'n:<br>• awdurdod lleol sy'n rheoli gwaith cyflawni'r cynllun, ar sail ddaearyddol, ar ran Llywodraeth Cymru;<br>• cyflogwr (o ran y rhai cymwys a gyflogir yn uniongyrchol gennym ni). |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ran eich data personol mewn perthynas â'ch cais ar gyfer Cynllun Taliadau y Gweithlu Gofal Cymdeithasol:

- Eich enw
- Eich rhif Yswiriant Gwladol
- Eich cyflogwr
- Enw'r lleoliad gofal lle rydych chi'n cael eich cyflogi
- Categori eich swydd*
- Unrhyw gostau ychwanegol i'r cyflogwr (cyfraniadau ychwanegol o ran Yswiriant Gwladol a phensiwn yn achos gweithwyr)

### Ffynhonnell y data personol

Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan eich cyflogwr (os ydych chi'n cael eich cyflogi yn uniongyrchol gan y Cyngor, adran Rheoli Pobl y Cyngor fyddai), a byddai'r rhan fwyaf o'r wybodaeth hon wedi dod o'r ffurflen hawlio wedi'i llenwi ar gyfer Cynllun Taliadau y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno i gydnabod a gwobrwyo gwaith caled ac ymrwymiad staff gofal cymdeithasol sydd wedi darparu gofal hanfodol i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ystod cyfnod mwyaf heriol pandemig COVID-19.

Er bod y cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru sy'n rheoli gwaith cyflawni'r cynllun, ar sail ddaearyddol, ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- defnyddio ein cofnodion i ddod o hyd i sefydliadau ac unigolion a allai fod â gweithwyr cymwys, ar gyfer cyflwyno ffurflenni hawlio iddyn nhw er mwyn eu rhoi nhw i'r gweithwyr cymwys;
- derbyn a gwirio ffurflenni gan weithwyr (rhestr o'r staff cymwys sydd wedi cyflwyno hawliad a'r wybodaeth arall yn y categorïau data personol sydd ar gael, uchod), i sicrhau bod nifer y staff sydd wedi hawlio yn unol â maint y lleoliad gofal perthnasol a dilyn unrhyw fesurau rhesymol pellach i wirio'r wybodaeth a roddir;
- ad-dalu cyflogwyr mewn perthynas â'r hawliadau hyn a hawlio'r arian hwn yn ôl gan Lywodraeth Cymru;
- cydgasglu ffurflenni gan bob cyflogwr ar ffurf cofnod meistr o'r holl staff cymwys ar draws ardal ddaearyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gwirio'r rhifau Yswiriant Gwladol i sicrhau nad yw unigolyn wedi hawlio mwy nag unwaith drwy wahanol gyflogwyr;
- rhannu rhestr o rifau Yswiriant Gwladol â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal cofrestr Cymru gyfan o daliadau a wneir i chwilio am daliadau dyblyg ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

O ran y rhai cymwys a gyflogir yn uniongyrchol gennym ni, byddwn ni hefyd yn:

- dod o hyd i chi yn ein cofnodion er mwyn darparu ffurflen hawlio i chi;
- derbyn eich ffurflen hawlio wedi'i llenwi, a'i chadw;
- prosesu eich taliad/taliadau drwy'r gyflogres;
- llunio rhestr o weithwyr cymwys y Cyngor sydd wedi cyflwyno hawliad, er mwyn y gwaith prosesu uchod.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Erthygl 6(1)(e) – processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vesting in the controller

# Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd yr adran Cyllid Corfforaethol.

Os ydych chi'n un o weithwyr cyflogedig y Cyngor, bydd eich data personol hefyd yn cael eu prosesu gan yr adran Rheoli Pobl (Adnoddau Dynol), gan gynnwys y gyflogres.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Ni fydd manylion unigolion sydd wedi cyflwyno hawliadau fel arfer yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru – dim ond data cryno sy'n nodi costau a nifer y taliadau gan y cyflogwr. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddarparu manylion am hawliadau unigol pan fydd ymholiad, anghysondeb neu apêl.

Byddwn ni'n rhannu rhestr o rifau Yswiriant Gwladol o ran hawliadau â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal cofrestr Cymru gyfan o daliadau a wneir i chwilio am daliadau dyblyg ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

O dan baragraff 17 yn Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad helaeth i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Os ydych chi'n un o weithwyr cyflogedig y Cyngor, bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy'r gyflogres i sicrhau bod treth incwm ac Yswiriant Gwladol yn cael eu trin yn briodol, ac i hwyluso'r hysbysiadau priodol i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Pa mor hir byddwn yn cadw'ch gwybodaeth

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd cofnod meistr o'r holl staff cymwys ar draws ardal ddaearyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â'r holl ddogfennau a gohebiaeth a ddarperir gan gyflogwyr, yn cael eu cadw am 7 mlynedd.

Os ydych chi'n un o weithwyr cyflogedig y Cyngor, bydd eich ffurflen hawlio wedi'i llenwi yn cael ei chadw am 2 flynedd.

Gall y cyfnodau cadw hyn newid yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### Y Weithdrefn Gwyno

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb